

CYFARFOD Y CYNGOR a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 18fed Medi 2019 yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd Dinesig, Ffordd Wellington, y Rhyl yn dechrau am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs E. M. Chard (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms M. V. Roberts ac R. J. Turner.

Gareth Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus - Dirprwy Glerc y Dref

52. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Cychwynodd Caplan y Maer, y Tad Charles Ramsay, y cyfarfod drwy arwain pawb a oedd yn bresennol mewn gweddi.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr J. A. Ball, Mrs J. Butterfield YH MBE, Ms J. Hughes, A. R. James, Mrs D. L. King, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, Miss S. L. Roberts, A. J. Rutherford a T. Thomas.

53. CYFLWYNIAD: GIDEONS INTERNATIONAL

Croesawodd y Maer Mr John Graham i'r cfarfod.

Diolchodd Mr Graham i'r Cyngor Tref am barhau i'w dderbyn yn ei gyfarfodydd, a chyflwynodd gopi o'r Ysgrythur i'r Maer, a dderbyniodd gyda diolch.

54. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

Cyfarfod - 17eg Gorffennaf 2019 - Cofnod Rhif 33-51
y Cyngor

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs E. M. Chard ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. S. Johnson ac fe **BENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir

Pwyllgor Cynllunio - 17eg Gorffennaf 2019 - Cofnod Rhif 10-12

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Chamberlain-Jones ac fe **BENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

Pwyllgor Cynllunio - 4ydd Medi 2019 - Cofnod Rhif 13-17

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs J. Chamberlain-Jones ac fe **BENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir.

I Gadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a - 4ydd Medi 2019 - Cofnod Rhif 13-24
Dibenion Cyffredinol

Cynigiwyd gan y Cynghorydd K. R. Jones ac eiliwyd gan y Cynghorydd Miss C. L. Williams ac fe **BENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir a'u cadarnhau at gyfer gweithredu.

Mewn perthynas â chofnod rhif 23 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol, holodd y Cynghorydd A. S. Johnson beth fyddai cost y goleuadau ychwanegol?

Dywedodd Clerc y Dref y byddai oddeutu £750.

55. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer at y digwyddiadau yr oedd hi a'r Dirprwy Faer wedi eu mynychu yn ystod y mis diwethaf a soniodd am ddigwyddiad cynllun cyfnewid gwisgoedd Cyngor ar Bopeth, Noson Iwcalili Cyngor Tref Bae Colwyn a Sioe Awyr y Rhyl fel uchafbwyntiau.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

56. CYFLWYNIAD: MR MIKE HORROCKS, CYNGOR SIR DDINBYCH – DIWEDDARIAD AR UWCHGYNLLUN CANOL TREF Y RHYL

Ymhellach i gofnod rhif 23 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19eg Mehefin 2019, croesawodd y Maer Mr Horrocks (Rheolwr Rhaglen, Datblygu Economaidd a Busnes) yn ôl i'r Cyngor Tref a gwahoddodd ef i roddi diweddariad i'r aelodau ar yr uwchgynllun.

Dywedodd Mr Horrocks:

- bod 2,500 o bobl wedi cymryd rhan yn y broses o ymgynghori gyda'r cyhoedd, gyda 750 o bobl yn dod i'r sesiwn yn yr hen siop Granite ar y stryd fawr, gan roddi llawer o adborth cadarnhaol.
- roedd yr wyth syniad blaenorol a adnabuwyd wedi eu lleihau i bedwar ar ôl yr ymgynghoriad diweddaraf (i uno'r traeth gyda chanol y dref, delio gyda'r mater o 'dref mewn dwy hanner', ystyried y dirywiad mewn unedau manwerthu ac ail-ddarganfod hunaniaeth y Rhyl).
- daeth pedwar prif ased o'r ymarfer – y traeth, cynllun strydoedd trefol, hygyrchedd da o drefi a dinasoedd o amgylch, cysylltedd da.
- roedd yr uwchgynllun wedi ei rannu ac roedd ymgysylltiad lefel uchel wedi bod gyda Bwrdd Datblygu Cymunedol y Rhyl a Sir Ddinbych yn Gweithio.

- byddai'r uwchgynllun yn cael ei gyflwyno gerbron Cabinet Cyngor Sir Ddinbych ar 24ain Medi ac roedd yn gofyn am ymrwymiad i fynd ymlaen.

Mewn ymateb i sylwadau a chwestiynau gan yr aelodau, dywedodd Mr Horrocks:

- cytunodd yn llwyr bod strydoedd glanach, sef gollwng sbwriel, yn dibynnu ar ail-addysgu ac nid yn unig ar fwy a mwy o lanhau strydoedd gan Gyngor Sir.
- mewn perthynas â darparu biniau ailgylchu, roedd BID Caer (Ardal Gwella Busnes) yn gweithio ar hyn ac roedd yn awyddus i weld y canlyniad, ond unwaith eto ymddygiad pobl oedd y broblem yn bennaf gan fod pobl yn tueddu i daflu pob math o sbwriel i'r biniau ac nid deunydd ailgylchadwy yn unig.
- roedd gan y Cyngor Tref rôl i'w chwarae o ran rhannu, hyrwyddo a pharhau i ymgysylltu gyda'r uwchgynllun.
- gobeithiai ddarparu copi caled o'r fersiwn terfynol i'r holl gynghorwyr tref, ynghyd â gwefan benodol.

Roedd yr aelodau yn falch gyda sut roedd yr uwchgynllun yn mynd a diolchwyd i Mr Horrocks am ei gyflwyniad.

57. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau an-rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'r rhestr o gyflwynwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'i lofnodi gan ddau gynghorydd.

Taliadau Atodlen B i'w cymeradwyo (29ain Awst – 10fed Medi 2019)

Cyflenwr	Manylion	Rhif Taleb	Swm £
Cyfrif Elusen Rhuddlan	Tocynnau i Ddigwyddiad Codi Arian y Maer 6ed Medi 2019	831	20.00
Fantasia Imports Limited	Tân gwyllt ar gyfer arddangosfa 5ed Tachwedd 2019	840	6,240.00
Y Cynghorydd E Chard	Treuliau Maer	841	103.40
BJS Solutions	Contract Cymorth Cynnal a Chadw 19/20	842	1,554.00
Cyfanswm Atdolen B			£7,917.40

Taliad Argyfwng – cymeradwywyd taleb 831 fel taliad argyfwng gan Clerc y Dref gan fod angen prynu tocynnau cyn cyfarfod nesaf y pwyllgor.

58. SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU – ARCHWILIO CYFRIFON 2017/18

Ymhellach i gofnod rhif 113 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 6ed Mawrth 2019, dywedodd Clerc y Dref bod Archwiliwr Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi ei adroddiad, nad oedd yn adroddiad budd cyhoeddus, a bod ganddo gopiâu ar gyfer yr aelodau, os oeddent yn dymuno ei weld.

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddisbarthwyd gyda'r rhaglen) yn amlinellu'r materion a godwyd gan yr Archwiliwr Cyffredinol a chan gynnwys adroddiad crynodeb drafft ynghlwm fel atodiad 2, os oedd y Cyngor Tref yn penderfynu derbyn yr argymhellion canlynol yn ffurfiol:

- (i) Ail-ofyn am awdurdod gan Lywodraeth Cymru
- (ii) Arolygu trefniadau'r Cyngor Tref i sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda gofynion statudol (trwy Is-bwyllgor Asesu Risg y Cyngor Tref)

PENDERFYNWHD bod y Cyngor Tref yn derbyn argymhellion yr Archwiliwr Cyffredinol a chymeradwyo'r ymateb crynodeb drafft i'w gyflwyno iddo.

59. PENODI CYNRYCHIOLWYUR AR GYRFF ALLANOL

- (i) SIR DDINBYCH GYNALIADWY**
- (ii) GRŴP BUSNES Y RHYL**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddisbarthwyd gyda'r rhaglen) gan esbonio bod dwy swydd wag wedi codi oherwydd bod y Cynghorwyr Mrs W. M. Mullen-James a T. Thomas wedi tynnu'n ôl o'r ddau gorff, a gofynnodd i'r aelodau ystyried ail-benodi i'r swyddi.

PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd K. R. Jones i Sir Ddinbych Gynaliadwy a gohirio'r awyntiad arall tan gyfarfid nesaf y Cyngor.

60. EITEMAU ER GWYBODAETH

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw faterion brys i'w codi.

61. HOLI AC ATEB

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd a oedd yn bresennol.

62. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

63. CYNLLUN GWOBR DDINESIG Y MAER

Ymhellach i gofnod rhif 76 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 7fed Tachwedd 2018, adroddodd Clerc y Dref bod unigolyn

wedi ei awgrymu i dderbyn y wobr gan y Maer, a gofynnodd am awdurdod yr aelodau i wneud hynny.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r person a gynigiwyd i dderbyn y wobr.

64. GWYBODAETH: COFNODION CYFRINACHOL

Cyfeiriodd y Maer at y cofnodion canlynol (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) a gyflwynwyd er gwybodaeth i'r aelodau.

Pwyllgor CSG - 8fed Gorffennaf 2019 - Rhifau Cofnod 1-7

PENDERFYNWYD derbyn y cofnodion.

65. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw eitemau busnes pellach, dywedodd y Maer bod cyfarfod y Cyngor wedi dod i ben.

Maer:

Dyddiad: